Rhif 210 RHAGFYR 2017 – IONAWR 2018

AM DDIM

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



## *A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd*

# TE AC EMYNAU

gan y Parchedig
Pam Cram

Wedi darllen *'O'r Gadair ar y Goror'* yn rhifyn Hydref-Tachwedd y *Gwyliedydd*, lle roedd Jennie yn sôn am emynau, hoffwn sôn am brosiect yma yng Nghlydach sydd yn llwyddiannus iawn.

Ers blynyddoedd mae rhai ohonom wedi arwain oedfaon o fawl mewn cartrefi henoed o bryd i'w gilydd – weithiau am fod aelod gyda ni yn y cartref dan sylw neu, yn fwy diweddar, fel rhan o ymgyrch 'genhadol' ein prosiect cymunedol 'Tŷ Croeso'.

Mewn siop fach ar y Stryd Fawr yng Nghlydach y mae pencadlys 'Tŷ Croeso'. Mae'r Banc Bwyd, yr Undeb Credyd, Siop Siarad a grwpiau eraill yn defnyddio'r adeilad ond ar yr un pryd rydym yn awyddus iawn i fynd allan i'r gymuned. Penderfynodd ein tîm o wirfoddolwyr ffurfio côr bychan i ganu hen emynau poblogaidd yn y cartref henoed cyfagos, ble mae fy mam yn byw. Weithiau byddem yn cael tipyn o anhawster, am nad oedd digon o aelodau o'r côr ar gael neu am nad oedd amser gan y gofalwyr yn y cartref i ddod â phobl a oedd â diddordeb i'r ystafell fyw.

Wedyn, adeg Gŵyl 'Greenbelt' 2016, fe glywon ni am sesiynau 'Te ac Emynau' poblogaidd iawn




mewn cymuned arall – lle roedd y cartrefi henoed yn dod â phobl i eglwys yn hytrach na'r eglwys yn mynd atyn nhw. O ganlyniad, ers dros flwyddyn rydym wedi trefnu sesiynau Te ac Emynau yn Neuadd y Nant, Clydach, ar bnawn dydd Mercher unwaith bob rhyw 6-8 wythnos. Mae'r gwahoddiad yn mynd i bedwar o gartrefi henoed yn y cylch, a thrwy bosteri, hysbyseb yn y papur lleol a.y.b. mae'r neges yn mynd ar led. Mae un o'r cartrefi yn dod â llond bws mini, a'r lleill yn dod ag un neu ddau o bobl. Mae ambell un yn dod o'r pentref, yn ogystal â rhai o'n ffrindiau o'r eglwysi yng Nghlydach a'r Gylchdaith.



Fel rheol byddwn yn canu 4 neu 5 emyn, rhai Saesneg a rhai Cymraeg, gan orffen bob tro gyda *Calon Lân*. Weithiau bydd unawdydd neu grŵp o blant ysgol yn canu hanner ffordd drwy'r sesiwn. Wedyn daw cyfle i bawb gymdeithasu dros gacennau hyfryd y bydd aelodau'r eglwysi yn eu gwneud at yr achlysur.

Un o'r rhai ddaeth i sesiwn yr haf oedd Maud, sydd bron yn 101 oed erbyn hyn. Y tro nesaf i mi ei gweld hi a'i merch yn y cartref preswyl, roeddent yn llawn brwdfrydedd. Meddai'r ferch, 'Roedd yn wych. Smo fi'n cofio ei chlywed hi yn canu ers iddi ddod i fyw yma'. Nid jyst canu'r emynau wnaeth Maud y diwrnod hwnnw chwaith, ond cydganu hefyd gyda'r unawdydd – ychydig o embaras i'w merch, ond pam lai ynte!




# CENWCH YN LLAFAR I'R ARGLWYDD

Daeth cyfeillion o wahanol gapeli ac eglwysi ym Mangor a'r cyffiniau at ei gilydd yn ddiweddar, i ganu mawl mewn cymanfa ddwyieithog. Edrychwn ymlaen at ddod ynghyd eto cyn bo hir.





# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 210**

**RHAGFYR 2017 - IONAWR 2018**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***



**DYDDIAD CAU:**
**3 IONAWWR 2017**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i **"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


## GWEITHREDU DROS BLANT

Wrth i'r Nadolig nesáu hoffem dynnu eich sylw at y deunydd sydd ar gael gan Gweithredu dros Blant. Mae'r deunydd ar gael ar wefan yr elusen:
actionforchildren.org.uk.
Mae'r elusen hefyd ar adeg y Nadolig yn casglu rhoddion i'w dosbarthu ymysg eu prosiectau. – rhoddion o deganau, nwyddau ymolchi a chardiau rhodd. Os am fwy o fanylion cysylltwch â ni, neu os oes arnoch angen copi papur o'r Gwasanaeth Nadolig.
Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law yn ystod y misoedd diwethaf, tuag at Gweithredu dros Blant:

| | |
|---|---|
| Horeb, Croesoswallt | £100.00 |
| Peniel, Llanelwy – casgliad ar achlysur y gwasanaeth olaf 24ain o Fedi 2017 | £115.00 |
| Bethan Roberts – rhoddion adeg ei phen-blwydd ym mis Awst | £235.00 |

**Anfonwyd cyfanswm o £450.00 yn enw Synod Cymru.**

*Gyda diolch am eich cefnogaeth.*
*Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan*
*Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF*
*01978 756717 • cwrteden@gmail.com*

# O'R GADAIR AR Y GOROR



**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Mae hi'n dymor y storïau sydd â gwirionedd ac ystyr ymhell y tu hwnt i'r geiriau ar y tudalen. Mae hi hefyd yn adeg o'r flwyddyn pan fydd angylion ym mhob man! Maen nhw ar gardiau Nadolig, yng ngeiriau ein carolau, yn ffenestri cartrefi a siopau ac ar ben coed Nadolig. Daw'r stori hon i ni gan un ohonynt – Anwen yr Angel...

"Alla i ddim yn cofio ers faint dwi wedi bod yn angel. Dyna'r peth os ydych chi'n fod nefolaidd – dydi amser ddim yn bodoli yn y nefoedd. Mae'r Creawdwr tu hwnt i amser, heb ddechreuad a heb ddiwedd, felly mae'r nefoedd yn bodoli y tu hwnt i dragwyddoldeb a thu allan i unrhyw syniad o amser hefyd. Ond mae'r Creawdwr yn gallu gwneud pob dim, a dwi'n cofio'n dda yr adeg pan wnaeth y Creawdwr dorri i mewn i amser, tu hwnt i'r nefoedd, mewn ffordd unigryw er mwyn dangos cariad tuag at y bydysawd, ac yn arbennig tuag at y byd dynol. Roedd o'n ddigwyddiad mor bwysig, mor gyffrous, mor enfawr, roedd yn rhaid i ni i gyd ymgynnull ac ymarfer ein caneuon mawl, am beth fyddai wedi bod yn wythnosau mewn amser bydol. Dwi'n credu fod rhai pobl yn parhau efo'r traddodiad ar y ddaear hyd heddiw, ac mae 'na rai sy'n dweud eu bod nhw wedi cael llond bol erbyn iddyn nhw gyrraedd y dathliad mawr. Rhag eu cywilydd nhw!

Beth bynnag ... mi wnaeth y Creawdwr rywbeth hollol ryfeddol pan gafodd ei eni fel bod dynol! Aeth i'r ddaear fel person, mor fregus ac mor agored i risg â phob un ohonyn nhw, i fyw er mwyn dangos cariad tuag atyn nhw ac i'w dysgu sut i garu, ac i farw er mwyn eu hachub nhw – rhagddyn nhw eu hunain, yn fwy na dim, fuaswn i'n dweud, a'u penderfyniadau peryglus am beth sy'n dda a beth sy ddim, sef eu pechod. Dewisodd amser a lle penodol – tref o'r enw Bethlehem, pan oedd y Rhufeiniaid wedi meddiannu'r wlad honno. A theulu penodol hefyd, pobl hynod o neis, a dyna lle'r aeth y Creawdwr, er mwyn cael ei eni fel unrhyw fod dynol arall. Wel, dim cweit – dewisodd stabl, tu allan i'r tŷ, lle bydden nhw'n bwydo'r anifeiliaid. Dyna'r Creawdwr i chi. Byth yn gwneud pethau fel buasech chi'n disgwyl. Ond o leiaf roedd y lle'n gynnes, efo gwres yr anifeiliaid. (A'r arogl!)

Mae bod yn angel yn golygu bod yn negesydd. Dyna ystyr ein henw – mae 'angel' yn golygu 'negesydd'. Mae'n swydd bwysig ofnadwy. Felly, ar noson y digwyddiad mawr, roedd rhaid i ni i gyd fynd i'r ddaear er mwyn rhoi'r neges i'r bobl oedd yno – criw o fugeiliaid, fel mae'n digwydd – a chyhoeddi'r newyddion da gan ganu ein caneuon mawl. "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd"! Dyna gân i chi! Roedd y sŵn yn anhygoel, yn llenwi'r nef a'r llawr. Wnaethon nhw glywed, dwi'n credu, y bobl oedd o gwmpas. Wel, ar ôl ein clywed ni, dyma nhw'n rhedeg i ffwrdd yn syth. Dwi wedi clywed bod rhai corau dynol yn cael yr un effaith. Da iawn nhw, beth bynnag! Mae'n rhaid parhau i gyhoeddi'r newyddion da; mae'n rhaid parhau i ddweud y neges ac i ganu mawl hefyd.

Ond dyna'r peth, ynte? Dweud y neges, rhannu newyddion da, "cyhoeddi'r efengyl", fel y buasai Gabriel yn dweud – mae Gabriel mor posh a dysgedig. Y corau yn canu eu caneuon o fawl, ein lluniau ni ym mhob man wrth iddyn nhw ddathlu'r digwyddiad mawr ar y ddaear bob blwyddyn...ac mae ganddyn nhw luniau'r Creawdwr yn faban, a dramâu a ffilmiau. Ac eto! Dydi pobl ddynol ddim i gyd wedi clywed y neges yn llawn nac yn iawn, rywsut neu'i gilydd. Dwi ddim yn deall pam – wnaethon ni ganu mor dda fel côr nefol. Mae'r gân yn atseinio o gwmpas y bydysawd o hyd. Ond dyna beth arall, ynte – fel angel, rydych chi'n byw tu allan i amser a lle, ac mae gan bobl ddynol gysylltiad mor agos efo'u hamser a'u lle nhw. Hoffen ni iddyn nhw helpu i basio'r neges ymlaen a chyhoeddi'r newyddion da, ym mha ffyrdd bynnag sy'n addas i'w hamser a'u lle nhw. Mae'r Creawdwr eisiau iddyn nhw fod yn engyl – negesyddion – hefyd! Diddorol, ynte, fod y gair 'engyl' mor debyg i'r gair 'efengyl'? Tybed fuasai'n bosib cael slogan...beth am 'rhannu'r newyddion da, rhannu'r efengyl, dod yn aelod o'r côr fel engyl'!

Ond dwi'n crwydro...Ar ôl i ni ganu i'r bugeiliaid, noson y digwyddiad mawr, mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i wedi picio i lawr i'r stabl yna, er mwyn gweld y Creawdwr yn faban, y Gair a ddaeth yn gnawd. Welais i erioed ddim byd mor hardd, na chynt na chwedyn. Pwy all beidio â chanu clod? Gwaith engyl yw – chi a fi!

# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Naw deg o flynyddoedd yn ôl i eleni fe gyhoeddwyd Llyfr Emynau'r Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd. Dyma'r llyfr emynau cyntaf i gael ei gyhoeddi ar y cyd gan ddau enwad yng Nghymru. Bu'n rhaid aros tan 2001 am un arall sef *Caneuon Ffydd* a gyhoeddwyd gan bwyllgor yn cynrychioli pum enwad.

Fe fydd y to hŷn o addolwyr yn cofio gydag anwyldeb yr hen lyfrau enwadol. Bydd rhai o Fedyddwyr Cymru yn cofio defnyddio'r *Llawlyfr Moliant* a gyhoeddwyd yn 1915 cyn derbyn *Y Llawlyfr Moliant Newydd* yn 1955. Roedd gan yr Annibynwyr *Y Caniedydd Cynulleidfaol* ers 1895 ond yn 1921 cyhoeddwyd *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd* gyda 1174 o emynau ynddo. Disodlwyd y casgliad enfawr hwnnw o emynau yn 1972 pan ddaeth *Y Caniedydd* o'r wasg. Y casgliad cyntaf o emynau a gyhoeddwyd gan yr Eglwys yng Nghymru ar ôl y datgysylltiad yn 1920 oedd *Emynau'r Eglwys* yn 1941; bu Esgobaeth Bangor yn gyfrifol am gyhoeddi *Emynau Hen a Newydd* yn 1954 ac *Emynau'r Llan* yn 1997.

Er bod nifer fawr o gasgliadau o emynau wedi eu cyhoeddi gan y Presbyteriaid o 1703 ymlaen, *Llyfr Hymnau* 1869 oedd yr un cyntaf swyddogol gan y Gymanfa Gyffredinol. Bu gan y Wesleaid nifer o gasgliadau o 1802 ymlaen ar gyfer y gwaith Cymraeg. Penllanw'r cyhoeddi gan yr enwad oedd *Llyfr Emynau y Wesleyaid* 1900. Defnyddiwyd hwn nes ei ddisodli gan *Lyfr Emynau* 1927.

Fe fu cryn feirniadu ar *Lyfr Emynau* 1927 am sawl rheswm. Digon heddiw yw nodi'r ddadl fawr ynglŷn â'r ddau air IECHYDWRIAETH ac IACHAWDWRIAETH, gyda'r Parchedig Ddr D Tecwyn Evans ar flaen y gad yn y frwydr. Digon yw dweud y bu'r llyfr yn ddylanwad mawr ar y rhai a fu yn ei ddefnyddio tan Ionawr 2001.

I mi hwn oedd yr unig lyfr emynau y gwyddwn yn iawn amdano nes y daeth *Caneuon Ffydd* o'r wasg. Ei ddiffyg mwyaf oedd prinder affwysol o garolau. Tair carol sydd yn yr adran sef *Yn nhawel wlad Jiwdea dlos* gan Elis Wyn o Wyrfai (1827-1895); *O deued pob Cristion i Fethlem yr awron*, carol blygain chwe phennill yn wreiddiol gan Jane Ellis a anwyd yn y Bala yn 1779; a *Loywaf o'r sêr sydd yn britho'r ffurfafen* o waith Heber a gyfieithwyd gan William Williams (1806-1877) ac a ddiweddarwyd gan J T Job (1867-1938). Teg yw dweud bod emynau Nadolig eraill yn y llyfr fel *Wele cawsom y Meseia* gan Dafydd Jones o Gaeo (1711-77); *Wele fi yn dyfod* gan Ieuan Gwyllt (1822-77); *Peraidd ganodd sêr y bore* gan Morgan Rhys (1716-79). Ond mae'n syn nad oedd rhai o garolau mawr eraill Cymru wedi cael lle yn y gyfrol. Tybed oedd y carolau hyn yn rhy werinol i'w hystyried gan D Tecwyn Evans a Syr John Morris-Jones ac eraill ar y pwyllgor.

Wrth gydnabod rhinweddau amlwg dwy o garolau swyddogol llyfr 1927, mae'n rhaid cyfaddef imi gael fy swyno gan *Loywaf o'r sêr* o'r darlleniad cyntaf. Carol tymor yr Ystwyll yw hi ac mae'r awdur yn llwyddo i gynnwys y seren, y doethion a phob un ohonom ninnau ar y daith i weld y gwir olud sef Iesu. Mae emyn mwyaf Heber i'w weld yn *Caneuon Ffydd* rhif 42 sef *Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Dduw hollalluog* ynghyd â'r emyn gwreiddiol Saesneg, rhif 880. Emyn yw ar gyfer Sul y Drindod ac fe ellir gweld camp Dyfed (1850-1923) gyda'r cyfieithiad wrth ddarllen y ddau emyn ochr yn ochr â'i gilydd.

Ychydig a wyddom am y Parchedig William Williams, cyfieithydd *Loywaf o'r sêr*. Gŵr o Ddinbych oedd a'i dad yn glerc yn y dref honno. Bu yn Rhydychen gan raddio yn M.A. a dod yn ficer Llanrhaeadr-ym-mochnant yn 1850 ac aros yno hyd ei farwolaeth yn 1877. Cyfieithodd nifer o emynau ond y garol hon yw'r enwocaf o'i waith. Nid yw'r Canon J Silas Evans yn sôn fawr amdano yn ei gyfrol am hanes y plwyf, ond mae'n dweud bod William Williams wedi ehangu'r ficerdy yn 1852. Mae'n debyg bod ficerdy Llanrhaeadr ymhlith y mwyaf yn esgobaeth Llanelwy gyda dwy acer o lawnt a gardd!

Reginald Heber (1783-1826) oedd awdur y garol wreiddiol. Ganwyd ef i deulu cyfoethog ym Malpas, swydd Caer. Aeth i Rydychen lle daeth ei ddawn lenyddol i'r amlwg. Yn 1807 aeth yn ficer i Hodnet, swydd Amwythig, man oedd yn rhan o stad ei deulu. Yn 1809 priododd â gwraig o Lanelwy sef Amelia Shipley, merch deon Cadeirlan Llanelwy. Bu yn Hodnet am 16 mlynedd ac yno y cyfansoddwyd ei holl emynau. Trwy ei gysylltiad â'r 'ficeriaid llengar' magodd gariad tuag at y Gymraeg a'i llenyddiaeth. Fe gyfrannodd ynghyd â Syr Edward Pryse Lloyd, sef y cyntaf o Arglwyddi Mostyn, yn hael i gronfa addysg Ieuan Glan Geirionnydd a John Blackwell (Alun). Yn 1823 derbyniodd Heber wahoddiad gan ei gyfaill coleg Charles Williams-Wynn iddo fynd yn Esgob Calcutta. Bu farw yno yn 1826 wedi iddo ddioddef trawiad haul. Er mai dim ond tair blynedd y bu yn y swydd fe gododd y Coleg Diwinyddol ar ei draed ac ordeinio'r brodor cyntaf o'r India i dderbyn urddau eglwysig.

Efallai y bydd y wybodaeth uchod yn dod â mwy o wefr i'r sawl a fydd yn canu *Loywaf o'r sêr*, sef rhif 458 yn *Caneuon Ffydd* yn ystod y Nadolig eleni. Diolch i awduron pob carol ac emyn am eu cyfraniad i addoliad eglwys a chapel dros y canrifoedd. Y gobaith yw y bydd eraill yn cael eu hysbrydoli i gyfansoddi carolau newydd fel bod y traddodiad yn cael ei barhau ymhell ar ôl ein dyddiau ni.

## RHODDION

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd.*

| | |
|---|---|
| D.W.Evans, Aberdaron | £5-00 |
| Merle Davies, Abergwaun | £4-00 |
| Dienw | £25-00 |
| Gwyneth M Ellis, Bebington | £10-00 |
| R.Tegid Jones,Rhosllannerchrugog (er cof am ei rieni) | £25-00 |
| Arian rhydd | £1-00 |

**Cyfanswm: £70-00**

Pawb sy'n derbyn copi unigol o'r Gwyliedydd drwy'r post (ac eithrio'r sawl sy'n gweithio i Synod Cymru neu'n cyfrannu erthyglau) – hoffem eich atgoffa'n garedig fod hyn yn costio (swm rhesymol IAWN!) sef £4 y flwyddyn. Sieciau yn daladwy i 'Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru', i'w hanfon at Robin os gwelwch yn dda.

**LLONGYFARCHIADAU** arbennig i Euron Hughes, un o golofnwyr *y Gwyliedydd* a mab i Ronnie a Gwenda Hughes, Llanddeiniolen, ar ei ordeinio i'r weinidogaeth yng ngofalaeth Eglwysi Annibynnol Dolgellau a Dinas Mawddwy. Dymuniadau gorau a phob bendith, Euron.



**LLONGYFARCHIADAU**
i'r Parchg Philip Barnett
ar ddathlu 50 mlynedd ers dechrau
yn y Weinidogaeth.

# Merched Methodistaidd Synod Cymru, Hydref 2017

gan Rona Morris



Bu rhagolygon y tywydd yn darogan grym corwynt *Brian* ers dyddiau – o ganlyniad bu i amryw o'n cyfeillion selog fethu ag ymuno â ni yn ein cyfarfod mis Hydref yng nghapel Seilo, Llandudno. Mrs Gwenda Humphries, Prestatyn, oedd yn ein hannerch. Dechreuodd drwy ein hatgoffa o hanes Naomi, gwraig a fentrodd i wlad estron yng nghwmni ei gŵr. Goroesodd brofedigaethau chwerw, gan golli ei gŵr a'i meibion, ei chynhaliaeth a'i chartref. Yna pan ddychwelodd i'w chynefin yng nghwmni ei merch yng nghyfraith, Ruth, bu'n rhaid i'r ddwy fod yn ddyfeisgar ac yn barod i loffa o ddydd i ddydd am eu cynhaliaeth. Rhaid oedd dibynnu ar help ymarferol gan eraill. Cyfnod oedd hwnnw o geisio ailafael ac adnewyddu eu ffydd, o beidio â digalonni a mentro fesul dydd i ddyfodol mwy gobeithiol. Yn ein cyfnod ninnau, mae llawer o wragedd yn parhau i wynebu anawsterau tebyg ac mae arnynt angen ein cymorth ymarferol ninnau i greu gwell byd i bawb.

Yn ystod y prynhawn cawsom gyfle hefyd i ymlacio ac ymdawelu yng nghwmni dwy delynores ddawnus sef Helen Wyn Pari a'i merch Mariel. Roedd y detholiad o alawon a gyflwynwyd ganddynt yn waith cyfansoddwyr o draddodiadau a chefndiroedd amrywiol iawn – a hynny hefyd yn fodd i'n ein hatgoffa ein bod yn rhan o eglwys fyd-eang.

Gwerthfawrogwyd gwasanaeth Angela Roberts, ein cyfeilydd. Mawr yw ein diolch i bawb a gyfrannodd ar gyfer y te ac i'r rhai a fu'n helpu i weini.

Anfonwn gyfarchion y tymor at ein chwiorydd a'n brodyr yn Synod Cymru ac ym mhob man. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yn ein cyfarfod nesaf a gynhelir yn ystod y Gwanwyn 2018.

---

# Pam yr ymunais â'r Crynwyr

gan Eluned Lee

Cafodd fy mab Andrew swydd hefo cwmni Cadbury yn y flwyddyn 2008. Roedd wrth ei fodd am fod y cwmni mor ofalus o'i weithwyr ac yn rhoi croeso cynnes i bawb oedd newydd ymuno â nhw. Roedd hyn yn wahanol iawn i'w brofiad mewn swydd flaenorol. Yna ychwanegodd, "Mae Cadbury yn hen deulu o Grynwyr ac yn defnyddio arferion y Crynwyr yn y lle gwaith". (Yn anffodus, newidiodd popeth ar ôl i gwmni Kraft gymryd y cwmni drosodd yn 2010).

Cododd y sgwrs hefo Andrew awydd ynof i wybod mwy am y Crynwyr, a phan welais hysbyseb yng nghanolfan Ucheldre yng Nghaergybi am gyfarfod y Crynwyr yno, penderfynais fynd. Hydref 2011 oedd hi, noson wlyb a gwyntog. Roedd y profiad a gefais yn wahanol iawn. Croesawyd fi wrth y drws a chefais bamffled ar gyfer ymwelwyr oedd yno am y tro cyntaf i'w ddarllen. Eisteddais ar gadair mewn cylch; ychydig oedd yno, a ddywedodd neb air, ond roedd y llonyddwch a deimlais yn hyfryd. Ar ôl y cyfarfod roeddent yn cynnig paned a phawb yn sgwrsio'n gartrefol braf.

Ymwelais hefyd â'r cwrdd ym Mangor, sydd ar fore Sul. Yno hefyd cefais groeso cynnes, a phenderfynais mai i'r cwrdd ym Mangor yr oeddwn am fynd am fod yna gwrdd bob bore Sul, a bod Bangor yn nes i Langristiolus lle mae fy nghartref.



*Tŷ'r Crynwyr, Bangor*

Dysgais am hanes y Crynwyr, yn dechrau hefo George Fox yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ond yr hyn wnaeth apelio fwyaf ataf oedd eu gwaith distaw yn ein dyddiau ni. Mae eu crefydd yn eu harwain i osod pwyslais arbennig ar wirionedd, cydraddoldeb, symlrwydd a heddwch. Byw yn unol â'r pethau hyn a thystiolaethu iddynt yw hanfod y cyfan. Dyma sy'n peri i'r Crynwyr roi eu ffydd ar waith trwy weithio'n lleol ac yn fyd-eang o blaid cyfiawnder cymdeithasol, heddychiaeth a gofal dros yr amgylchfyd. Maent yn gweithio'n galed i leihau eu hôl troed carbon.

Gan fod y Crynwyr yn credu y gall pawb gael cymundeb â Duw, nid oes ganddynt offeiriaid na hierarchaeth. Mae gan bob Crynwr hawl i fod â rhan mewn gwneud penderfyniadau a rhedeg y Gymdeithas. Gofynnir i'r rhai sydd â rôl benodedig weithredu am gyfnod penodol ac ar ôl hynny bydd eraill yn cymryd drosodd y gwaith.

Roeddwn yn medru teimlo yn hollol gyffyrddus yng nghwmni pawb. Maent yn eich derbyn chi fel yr ydych, heb eich barnu o gwbl. Penderfynais ymaelodi â'r Crynwyr yn 2013. Teimlaf fy mod yn rhan o fudiad sydd yn gweithio'n ddyfal i geisio gwella bywyd pawb. Mae hyn yn rhoi gobaith imi am y dyfodol. Cefais fy magu ym mhentref Penygroes, Gwynedd, a mynd i gapel Bethel (gynt). Yn fy arddegau derbyniwyd fi yn aelod o Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu caredigrwydd a'u cariad.

Fy mraint yw bod yn nain i chwech o wyrion. Fy ngobaith yw, ymhell yn y dyfodol, y byddant yn cofio i mi wneud fy ngorau i beidio eu gadael hefo byd mewn gormod o lanast!

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Pendref, Dinbych

**CROESAWU AELODAU PENIEL**

Ar ddydd Sul 1 Hydref, cynhaliwyd oedfa arbennig ym Mhendref o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands, pan groesawyd aelodau Peniel yn aelodau gyda ni ar ôl i'r achos yn Llanelwy gael ei ddirwyn i ben. Bu'r ddwy eglwys yn cydweithredu a chyd-addoli ers rhai blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at ddyfodol gweithgar a hapus gyda'n gilydd.

**OEDFAON BENDITHIOL**

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol ym Mheniel Llanelwy a Phendref yn ystod Medi dan ofal y Parchedigion Glyn Thomas a Tudur Rowlands; felly hefyd ym mis Hydref pan wasanaethwyd gan Enid Mair Davies a'r Parchedig Ddr Jennie Hurd. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfodydd gweddi a gynhaliwyd ar Suliau eraill.

**ATGYWEIRIADAU**

Er i ni dderbyn newyddion da ynglŷn â'r gwaith ar do'r capel a'r festri, yn anffodus, oherwydd pwysau gwaith y contractwyr, ni fydd modd dechrau ar y gwaith am rai wythnosau. Yn y cyfamser mae trafodaethau yn mynd ymlaen ynglŷn ag ariannu'r gwaith fydd ei angen ar nenfwd y capel.

**YMWELWYR O SINGAPORE**

Dydd Sadwrn Medi'r 2il ymwelodd 42 o aelodau'r Eglwys Fethodistaidd yn Singapore â'r capel. Eu dymuniad oedd ymweld â'r "*Capel Wesleaidd Cymreig Cyntaf yn y byd*" (geiriau'r Parch Lot Hughes yn yr *Eurgrawn*, 1863). Roedd y grŵp ar daith o amgylch Cymru o dan y teitl "Heart of Wales".



Yn ystod eu hymweliad cafwyd hanes byr am y capel gan Medwyn Jones a chynhaliwyd gwasanaeth byr yn y capel a'r festri dan arweiniad eu gweinidog yr Esgob Robert Solomon. Arweiniwyd y grŵp gan Dafydd Wyn Phillips o Lundain. Mynnodd yr ymwelwyr wneud casgliad ariannol ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cyfraniad hynod o hael.



**DIOLCHGARWCH**

Dydd Iau Hydref 4ydd cynhaliwyd Diolchgarwch Undebol Cymraeg tref Dinbych ym Mhendref. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi am 10 y bore gyda chynrychiolwyr o gapeli y Capel Mawr, Lôn Swan a Phendref yn cymryd rhan. Am 7 yr hwyr cynhaliwyd oedfa dan arweiniad y Parchedig Christopher Prew, Porthmadog. Croesawyd ef a diolchwyd iddo gan y Parchedig Tudur Rowlands. Y ddwy oedfa yn rhai bendithiol.

**CYDYMDEIMLO**

Trist oedd clywed am farwolaeth un o'n haelodau sef Mrs Diana Roberts, priod annwyl y diweddar Richard John Roberts. Bu Diana yn aelod ffyddlon a gweithgar ac yn un o organyddion a chyfeilyddion y capel. Bu hefyd ar un adeg yn ohebydd Pendref i'r *Gwyliedydd*. Hunodd yn dawel yn ei chartref ar Hydref 3ydd ar ôl cystudd hir. Cynhaliwyd gwasanaeth i gofio a diolch am ei bywyd yng Nghapel Lôn Swan ar Hydref 12fed. Cydymdeimlwn â'r plant Manon, Elin, Iwan a'i briod a'r holl deulu.

Yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd* bu i ni ddymuno'n dda i Mrs Joan Pritchard a'i chwaer Mrs Dorothy Evans oedd bellach wedi symud o Blas Llanrhaeadr i'w cartref newydd yng nghanolbarth Lloegr. Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Evans a chydymdeimlwn â Mrs Pritchard o golli ei chwaer.

**FFAIR NADOLIG**

Cynhaliwyd ein Ffair Hydref / Nadolig yng Nghanolfan Eirianfa dydd Sadwrn Tachwedd 25ain rhwng 10 ac 11 y bore.

*Gohebydd – Mary Jones*

## Horeb, Llanrwst

**DIOLCHGARWCH**

Cafwyd oedfa ddiolchgarwch fendithiol iawn gyda'n gweinidog y Parchedig R. Ifor Jones ar 22 Hydref a'r thema oedd y modd y mae rhoddion Duw yn gallu bod yn fendith neu yn felltith yn ôl y defnydd a wneir ohonynt.

Ymunodd rhai o'r aelodau â chyfeillion capeli ac eglwysi'r dref i gael swper Diolchgarwch yn festri Seion ar nos Wener, 14 Hydref. Cafwyd adloniant gan ddisgyblion Ysgol Llanddoged. Roedd pawb wedi mwynhau'r noson a rhoddwyd yr elw i Gymorth Cristnogol.

**GWELLHAD BUAN**

Rydym fel eglwys yn dymuno adferiad iechyd buan i Elfrys ar ôl ei hanffawd yn ddiweddar. Cafodd godwm a thorri ei braich. Da yw deall ei bod yn gwella a bod Arwel yn ymdopi yn dda â'r gwaith tŷ!

**DYMUNIADAU GORAU**

Dymunwn yn dda iawn i Mrs Rona Jones a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Er nad yw ei hiechyd yn arbennig o dda, mae hi bob amser yn siriol ac yn falch o weld teulu a chyfeillion. Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Mary Hughes, hithau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ond gartref yn awr yn Hafan Gwydir.

Hyfryd yw gweld Nesta yn ôl wrth yr organ, hithau heb fod yn rhy dda yn ddiweddar ond erbyn hyn yn teimlo yn llawer gwell.

Mae sawl aelod yn fregus eu hiechyd ac anfonwn ein cofion atynt.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Ann Jones sydd wedi cael profedigaeth o golli ei chwaer Margaret, yng Nghanada yn ddiweddar. Bu Ann a Llinos ei merch draw yng Nghanada dros yr angladd.

*Gohebydd – Eira Jones*

## Salem, Rhyd y Foel

**YR YSGWRN**

Ar 10 Medi aethom i ymweld â'r Ysgwrn, Trawsfynydd, gan ein bod eleni yn cofio 100 mlynedd ers marwolaeth Hedd Wyn. Cafwyd cinio yng ngwesty'r Seren, Llan Ffestiniog cyn troi am yr Ysgwrn. Roedd paned a chacen yn ein disgwyl ynghyd â ffilm yn olrhain hanes yr Ysgwrn. Cawsom ein tywys o amgylch y cartref a chael gweld y Gadair Ddu yn y parlwr a nifer o gadeiriau eisteddfodol eraill a enillodd Hedd Wyn, ar lawr cyntaf y ffermdy. Gwelsom ffilm arall cyn troi am adref a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

**DIOLCHGARWCH**
Ddydd Sul 15 Hydref, gyda'r Dr Prydwen Elfed Owens yn pregethu, cynhaliwyd Sul o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf. Roedd cynulleidfa deilwng iawn gyda chyfeillion o'r ardal wedi ymuno i gydaddoli â ni. Hyfryd oedd gweld y naw plentyn oedd yn bresennol yn dod ymlaen, pob un â ffrwythau a llysiau i'w rhoddi ar fwrdd y Cymun. Roedd y capel yn edrych yn odidog a diolch i Menna ac Esther am eu gwaith yn addurno'r adeilad.

**COFION**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan at Elwyn Roberts, Cefn Castell, wedi iddo ddioddef anffawd yn ddiweddar.

*Gohebydd – Siân Price*

Cynhelir ein gwasanaeth Nadolig dwyieithog ar 17 Rhagfyr am 2yp. Croeso cynnes i bawb.

## Peniel, Llanelwy

Tristwch yw cofnodi ein bod wedi cynnal ein gwasanaeth olaf yng nghapel Peniel, Llanelwy ar 24 Medi. Daeth nifer dda o bobl yn cynrychioli'r Eglwys Bresbyteraidd, yr Eglwys Gadeiriol a chapel Pendref, Dinbych i'r gwasanaeth a oedd dan ofal y Parchedig Tudur Rowlands. Cawsom wasanaeth bendithiol ac adeiladol a chymerwyd rhan gan dri o gyn-weinidogion y capel. Rhoddodd y Parchedigion Cledwyn Parry a Thomas Evans-Williams atgofion am waith yr Eglwys Fethodistaidd yn yr ardal, ac am y gweithwyr ffyddlon dros nifer fawr o flynyddoedd, fel Mr Edgar Rees, Mr Charles Jones a Mr Herbert Jones. Nodwyd hefyd y gwaith da a wnaeth yr Ysgol Sul. Offrymwyd gweddi ysbrydoledig gan y Parchedig John Barnett. Derbyniwyd casgliad o dros £100 er budd Gweithredu dros Blant.

Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a lluniaeth ysgafn blasus. Er cau ein drysau, byddwn ni fel aelodau o'r Eglwys Fethodistaidd yn parhau i weithio yn y gymuned leol ac i addoli yng nghapel Pendref, Dinbych.

*Gohebydd – Heulwen M. Ellis*







## Bethel, Rhiwbeina

**CROESO I'N GWASANAETHAU**
Mae croeso cynnes i bawb yn ein gwasanaethau fore Sul sy'n cychwyn am 10.15yb. Hefyd fe gynhelir Ysgol Sul yn ystod tymhorau ysgol.

**LLONGYFARCH**
Erbyn hyn mae nifer o blant yr Eglwys wedi cychwyn ar eu cyrsiau prifysgol yn dilyn eu llwyddiant yn arholiadau Safon Uwch. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elen, Hannah, Iestyn a Sylvan.

**YN Y PULPUD**
Yn ystod mis Hydref croesawyd i'r pulpud Mr Mansel Jones, y Parchedig Eirian Rees, yr Athro John Gwynfor Jones, ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan a'r Parchedig R Alun Evans.

**CYDYMDEIMLO**
Rydym yn cydymdeimlo â Mair Dyfri Jones ar golli ei phriod, Dyfri, a frwydrodd yn ddewr dros gyfnod hir. Cydymdeimlwn hefyd â'r merched, Bethan ac Eleri ar golli eu tad.

Cydymdeimlwn yn ogystal â Llinos Howells ar farwolaeth ei hewyrth, Emrys Davies, Gwyddelwern. Er ei fod yn 95 oed roedd yn rhyfeddol o chwim ei gorff a'i feddwl. Fel ei frawd y diweddar Barchedig Tudor Davies, roedd yn ŵr diwylliedig ac yn gefn i achos ei Arglwydd yn ei ardal.

**CINIO**
Ar Hydref 22 bu cyfle i aelodau a ffrindiau ymuno i fwynhau cinio dydd Sul yn y *Discovery* yng nghwmni ein gweinidog. Diolch i Gwenda am wneud y trefniadau.

**CROESO**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf braf oedd croesawu i'n plith Mr Arfon Roberts o Gaernarfon sydd ar hyn o bryd yn aros gyda'i ferch yng Nghaerdydd.

**YMDDEOL**
Dymunwn yn dda i Shirley Williams ar ei hymddeoliad o'i swydd fel un o swyddogion cenedlaethol Merched y Wawr.

**BORE COFFI**
Ar ddydd Mawrth, Tachwedd 21 cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel er mwyn codi arian ar gyfer Prosiect y Digartref.

**DYMUNIADAU GORAU**
Da oedd clywed bod Bob Davies wedi gwella digon i fedru gadael yr ysbyty ar ôl cyfnod o salwch ac yn falch o gael sgwrs gyda chyfeillion. Rydym hefyd yn anfon ein cofion at aelodau a ffrindiau sy'n methu dod i'r capel ar hyn o bryd.

*Gohebydd – Gwilym E. Roberts*



# Gŵyl Cariad

gan y Parchedig J. Bryn Jones



Mae tymor yr Adfent yn agosáu unwaith eto; cyfnod prysur sy'n arwain at y Nadolig. Mae'n un o'r gwyliau pwysicaf i ni fel Cristnogion, os nad y bwysicaf un; oherwydd heb ŵyl y Nadolig, ni fyddai gennym wyliau a dyddiau eraill i'w dathlu yn ystod y Flwyddyn Eglwysig.

Mae gan yr emynydd Christina Rossetti (1830-94) emyn sydd wedi bod ar fy meddwl ers blynyddoedd, ac er nad bardd mohonof, mentrais drosi'r pennill cyntaf i'r Gymraeg. Mae'r garol yn fy marn i yn crynhoi'r nodweddion pwysicaf sy'n perthyn i'r Nadolig ac yn mynd â ni at galon yr ŵyl, sef Cariad:

Cariad ddaeth i'r byd y Nadolig,
na welwyd erioed mo'i fath
Cariad a anwyd yn y Nadolig
Duw ydoedd mewn plentyn bach.

Wrth gwrs, mae'r ŵyl wedi ei masnacheiddio cymaint nes ei bod hi'n bopeth ond y gwir Nadolig. Gŵyl y gwario gwyllt, a llawer yn tybio fod a wnelo'r ŵyl yn bennaf â phlant a chyfnewid anrhegion – er bod cyfnewid anrhegion yn gwbl naturiol, yn fy marn i, oherwydd mai anrheg Duw i'r byd oedd geni Iesu.

Ac nid ar y plant y mae'r bai am y gorwario, ond arnom ni fel oedolion; nid rhoi er mwyn derbyn ac nid gwerth ariannol yr anrheg yw gwir neges y Nadolig.

Pan oedd y Parchedig J. Haines Davies yn weinidog yn Nhreffynnon, derbyniodd wahoddiad gan y BBC i arwain Oedfa'r Bore fel y'i gelwid bryd hynny; fe dderbyniodd y cyfle ond oedodd am ychydig i feddwl am destun – penderfynodd anfon am gyngor gan y Parchedig Philip Watson, un o'r tiwtoriaid yng Ngholeg Handsworth, Birmingham (ble y bûm innau yn fyfyriwr), a daeth ateb gyda'r troad yn awgrymu na fedrai feddwl am destun mwy addas na Ioan 3-16 am Gariad: "Canys felly y carodd Duw y byd…." a chafwyd oedfa fendithiol y bore hwnnw, fel y gellid disgwyl.

Pan orffennais fy nghyfnod yn yr Awyrlu ym 1947 (tair ohonynt yn India), cyfarfûm â Maldwyn Roberts o Ddolwyddelan oedd yn gweithio fel swyddog yng Nghomisiwn y Goedwigaeth, a daethom yn ffrindiau. Roedd yntau hefyd â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth, Maldwyn gyda'r Presbyteriaid a minnau gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Ar ôl treulio cyfnod yng Nghymru, penderfynodd Maldwyn fynd yn weinidog i Batagonia. Un diwrnod, derbyniais lyfr ganddo yn anrheg Nadolig dan y teitl 'The Greatest Thing in the World' gan Dr Henry Drummond o'r Alban. Dyfalais beth oedd y peth gorau yn y byd ac ni fûm yn hir cyn canfod mai cariad oedd hwn. Yn ystod fy nghyfnod o 70 mlynedd yn y weinidogaeth, bu sawl rhyfel diangen a dibwrpas dros y byd. Yn hytrach na derbyn cariad Iesu Grist a byw mewn heddwch, dewisodd pobl ffordd casineb, dicter a rhyfel. Yn y Bregeth ar y Mynydd, dywedodd Iesu, a oedd yn gariad o'i gorun i'w sawdl 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr'; mae'r byd ymhell o fod yn dangnefeddus ond yn y pen draw bydd cariad yn gorchfygu casineb.

Mae'r Apostol Paul yn crynhoi'r cyfan yn ei emyn mawr (1 Corinthiaid 1-13) i gariad: 'Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad'.

Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Heddychol i olygyddion a darllenwyr y *Gwyliedydd*.

# O'R PEN YMA



gan ANGHARAD TOMOS

Sut mae trefnu cymdeithas, a honno yn un deg? Mae hwn yn gwestiwn sylfaenol i unrhyw Gristion. 'Beth yw trefnu teyrnas?' gofynna Waldo, cyn ateb 'Crefft sydd eto'n cropian'. Er cymaint yr ydym wedi datblygu yn dechnegol, ar raddfa llywodraethu rydym yn dal yn go gyntefig. 'Trechaf treisied' ydi hi'n llawer rhy aml, ac rydym yn dal i ddibynnu ar arfau fel ffordd o ddelio efo gelynion.

Fis Hydref, cynhaliwyd refferendwm yn Catalunya gan ofyn i bobl a oeddent am weld y wlad yn weriniaeth annibynnol. Doedd Sbaen ddim yn hoffi hyn, felly dyma nhw'n amharu ar y blychau pleidleisio a churo bron i fil o bobl – hen ac ifanc – yn ddidrugaredd. Bydd y delweddau yn aros efo ni am amser maith. Aros yn dawel ddaru yr Undeb Ewropeaidd gan fynnu mai ffrae fewnol i Sbaen oedd hyn, ac na ddylent ymyrryd. Erbyn dechrau Tachwedd, roedd aelodau senedd Catalunya yn y carchar yn Sbaen yn wynebu achos llys am 'rebelio', ac roedd gwarant i gael gafael ar y Llywydd, Carles Puigdemont. Eu trosedd oedd trefnu etholiad i geisio barn y bobl. Bellach, ymddengys fod hyn yn anghyfreithlon yn Ewrop.

Beth ddylai'r Cristion ei wneud mewn sefyllfa lle mae llywodraeth yn gormesu pobl?

A ddylent ufuddhau i'r awdurdodau, neu a ddylent wrthwynebu gan geisio newid y drefn am un decach? Mae hwn wedi bod yn gwestiwn oesol. Dywed rhai mai byd anghyfiawn ydyw yn ei hanfod, ac na fydd cyfiawnder nes cyrraedd y nefoedd. Mynn eraill mai dyletswydd y Cristion yw herio anghyfiawnder ym mhob sefyllfa.

Mae Catalunya yn hen gyfarwydd â gormes. Pan gyhoeddodd Llywydd Catalunya annibyniaeth ym 1938, roedd yn alltud yn Ffrainc. Cafodd ei arestio gan y Natsïaid a'i anfon i garchar ym Madrid. Wedi ei arteithio a'i gyhuddo o 'rebelio', fe'i dienyddiwyd. Dyna ffordd Sbaen o ddelio efo Catalunya pan mae'n cambyhafio. Wele genhedlaeth newydd yn rhoi cynnig arni, yn gobeithio na fydd hanes yn ailadrodd ei hun. Ond mae'r rhagolygon yn dywyll.

Fwy nag unwaith, pan mae sefyllfa anodd fel hyn yn codi ei phen, rydw i wedi clywed rhai yn mynnu mai 'byhafio' yw priod ddyletswydd y Cristion. Maen nhw'n hoff o ddyfynnu geiriau yr Apostol Paul, 'Ymddarostyngwch...i bob dynol ordinhad' fel petai hwn yn ateb terfynol. Mae'n werth atgoffa ein hunain lle roedd Paul ar y pryd pan ddywedodd y geiriau hyn. Ie, rydych yn hollol gywir - yn y carchar.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD IS-BWYLLGOR CYMRAEG (Rhyngenwadol)**

Rhannwyd arian gan Is-bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn gyson i gefnogi nifer o brosiectau Cristnogol. Mae'r drefn bellach wedi newid ychydig, a gwahoddir ceisiadau o hyn ymlaen am roddion ariannol gan Elusennau Cristnogol ar gyfer noddi prosiectau.

Ffurflen gais a manylion pellach ar gael gan yr Ysgrifennydd:
Mrs Maureen Hughes, Trefin, Ffordd Berthddu, Llanrwst, LL26 0HG, e-bost: bleddynh@hotmail.co.uk .

Y ffurflen gais i'w dychwelyd erbyn diwedd Ionawr 2018.

# San Steffan yn Gwahardd y Nadolig!

*Am fod cynifer o bobl yn gwario cymaint o arian adeg y Nadolig ac yn treulio oriau maith yn gwledda, yn bwyta gormod ac yn yfed gormod, y mae Gwerinlywodraeth Lloegr yn gwahardd pob dathlu amser y Nadolig. Mae'r Fari Lwyd, y Plygain, celyn ac uchelwydd yn bethau sy'n arwain at feddwdod ac anniweirdeb. Gall caws pen mochyn, mins-peis a phwdin plwm fod yn rhan o lethr llithrig. Dylai'r 25ain o Ragfyr fod yn ddiwrnod o weddi ac ympryd.*

Dyna, beth bynnag, oedd agwedd y Piwritaniaid ym 1642, pan wnaeth y Llywodraeth ymdrech i gael gwared o ddathlu'r Nadolig; roedd mynychu'r Eglwys a gwrando ar bregeth hyd yn oed yn annerbyniol. Ni lwyddodd Cromwell a'i griw! Cyn gynted ag y daeth Siarl II yn frenin yn 1660, fe ailddechreuodd y gwledda, ac mae pobl yn dal i fwyta ac yfed gormod, a gwario cannoedd o bunnoedd hyd heddiw.

Daeth y Goeden Nadolig yn ffasiynol cyn oes Fictoria, a chardiau Nadolig tua 1870. Mae'r siwmper Nadolig yn fwy newydd, ond mae rhai traddodiadau wedi parhau o'r Oesoedd Canol. Mae ambell elfen wedi newid: roedd y Pwdin Plwm yn cynnwys cig gyda'r siwgwr a'r cyrens (ni fu eirin go iawn ynddo erioed!). Yn y 19eg ganrif yn unig y daeth berwi'r pwdin mewn clwt yn gyffredin, i wneud rhywbeth sy'n debyg i belen canon. Nawr, wrth gwrs, mae'n bosib coginio'r pwdin mewn popty ping!

Dyma fy rysáit braster isel i. Bydd angen:
150 gram o friwsion bara gwenith
150 gram o afal neu foron wedi eu gratio
150 gram o ffrwythau sych cymysg
100 gram o siwgwr muscovado tywyll
llond llwy de o sbeis cymysg
croen 1 lemwn wedi ei falu
llond llwy de o frownin grefi
2 wy



Cymysgwch y rhain a'u gadael am hanner awr. Os yw y gymysgedd ddim yn hylif, ychwanegwch ychydig o de (neu rywbeth arall cryfach). Seimiwch bowlen yn barod, a nawr ychwanegwch 1 llwyaid o bowdwr codi. Coginiwch mewn popty ping am 20 i 25 munud, neu ferwi am awr a hanner. Mae'n bosib ei weini gyda saws gwyn, hufen neu hufen iâ, ond mae'n rhaid i fi gyfaddef fy mod i'n hoff iawn o geulion hufen! Beth fyddai'r hen Biwritaniaid yn ei feddwl?

# CERDDI SEION

Cyfrol a gyflwynwyd i'r Parchedig Gwyn Thomas ar ei ymddeolia)

gan Osian Ellis

Wrth ystyried sut orau i ddathlu ymddeoliad ein gweinidog ffyddlon, y Parchedig Gwyn Thomas, carwn fod wedi cyfansoddi cywydd ffarwel iddo yn null yr hen gywyddwyr, neu, hyd yn oed, marwnad – ffug, wrth gwrs, yn null cywyddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg er mwyn cael sbort gyda'u cymdeithion barddol – megis Gruffudd Gryg yn cyfansoddi marwnad (ffals) i Ddafydd ap Gwilym. (Ond, cofiwch, mi sgrifennodd un addas a chywir iddo pan fu farw'n ddeg ar hugain oed.) Sylweddolais fod cywydd i'm gweinidog y tu hwnt i'm gallu, ond meddyliais tybed a garai gael cyfres o ganeuon a gyfansoddais ac a genais yng Nghapel Seion, Pwllheli, dros y pymtheng mlynedd diwethaf?

Roedd rhai o'r geiriau yr oeddwn wedi'u gosod i gerddoriaeth ymhlith prif drysorau ein cenedl. Er enghraifft, meddai Saunders Lewis am gerdd hwyaf Ann Griffiths, "Rhyfedd, rhyfedd gan angylion", mai dyma 'un o gerddi mawreddog barddoniaeth grefyddol Ewrop'. Bu Ann yn destun llawer llyfr a sawl darlith am ei rhagoriaeth – gwyrthiol yn wir, i ferch a gwraig fferm tua diwedd y ddeunawfed ganrif, a fu farw'n ifanc wedi geni plentyn. Tybed, hefyd, a yw cyfieithiad y Parchedig E H Griffiths yn well hyd yn oed, ac yn fwy angerddol na gwreiddiol Charles Wesley; ond hwyrach mai i mi fy hunan y mae'n hynod, am ei fod yn y Gymraeg – iaith fy nghrefydd a'm diwylliant.

A dyna sut y deuthum i greu rhyw Flodeugerdd fer o rai o'm caneuon – saith ohonynt. Wyddoch chi (na soniwch wrth neb arall) mae 'na gyfrol arall ar y gweill!

CERDDI SEION

1 **Salm 23 – Yr Arglwydd yw fy mugail**
2 **Arglwydd y gofod di-ben-draw** (Gwilym R Jones)
3 **Ni ddichon byd** (Ann Griffiths)
4 **Rhyfedd, rhyfedd gan angylion** (Ann Griffiths)
5 **Dygwyl Dewi** (Emyn Lladin [tua 1440] Tôn newydd, a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Parch Silas Harris)
6 **Myn Mair** (Hen Alaw: Cân eglwysig - 15eg Ganrif.)
7 **Ai gwir y gair?** (Cyfieithiad o Emyn Charles Wesley gan y diweddar Barchedig E H Griffiths)

Wrth ganu'r organ yn Seion roedd yn gyfleus fy mod yn wynebu'r gynulleidfa ac yn gallu datganu'n weddol effeithiol i gynulleidfa fach. Ac weithiau, caem rihyrsal byr er mwyn iddynt gael ymuno yn niweddglo'r emyn.

Mae'n debyg mai'r hyn wnaeth fy nghyffroi i gyfansoddi rhai o'r caneuon oedd diffyg llawer tôn yn ein llyfrau emynau i adleisio'r angerdd a glywid yn y geiriau. Ar y llaw arall, roedd emyn Gwilym R Jones yn yr *Atodiad* – 'Arglwydd y gofod' mewn dau fesur gwahanol, gyda'r pennill cyntaf yn dechrau â sill drom a'r tri phennill arall â sill ysgafn, gan fynnu am osod y pennill cyntaf yn wahanol i'r lleill. Ai dyna pam nas gwelwyd yn *Caneuon Ffydd?*

**Hir oes a phob bendith i'm cyfaill, y Parchedig Gwyn Thomas**

NADOLIG LENI

Tybed glywn ni g n angylion / Uwchben meysydd Cymru'n gwlad.
Tybed ddaw 'na seren eglur / I'n tywysu at ein Tad.
Tybed deimlwn ni yr arswyd / Deimlodd y bugeiliaid tlawd,
Tybed fydd Nadolig leni'n / Dod â brawd yn nes at frawd. –*R.J.*

**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd, Rhagfyr 2017 – Ionawr 2018**

***Rhagfyr***
3. Glannau Meirion a Dyfi
10. Powys
17. Bathafarn
24. Glannau Maelor
31. Morgannwg

***Ionawr***
7. Glannau Maelor
14. Powys
21. Môn ac Arfon
28. Morgannwg




**A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13**

## Tabernacl, Llanfyllin

**CYFEILLION DRWS AGORED**
Aeth ein gwibdaith flynyddol eleni i eglwys hynafol Sant Silin, lle cawsom groeso cynnes. Cawsom hanes yr eglwys drwy'r canrifoedd a'n tywys o'i chwmpas gan dynnu'n sylw at ambell grair diddorol. Carys Evans fu'n adrodd peth o hanes Huw Morris, un o feirdd enwog yr ardal oedd â chysylltiad agos â'r eglwys. Wedi hyn dangoswyd inni rai o'r beddi hanesyddol yn y fynwent a'r goeden ywen sydd dros fil o flynyddoedd oed. Clo ardderchog i'r prynhawn oedd cael te hynod flasus oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r eglwys yn ystafell newydd y plwyf. Aeth pawb adre wedi eu plesio'n fawr. Diolch i Mrs Mair Ellis am drefnu.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cynhaliwyd Bore Coffi blynyddol llwyddiannus iawn gan Gangen Llanfyllin ar Fedi 23ain. Diolch i Ann Evans, Myra Price, Margaret Blainey, Eva Roberts, Rhoswen Charles a Glyn Evans am eu holl gymorth. Llwyddwyd i godi dros £400 sydd yn swm ardderchog ond yn nodweddiadol o haelioni pobl Llanfyllin a'r cylch.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd y cyfarfodydd diolch eleni yng nghapel y Tabernacl. Yng nghyfarfod y plant cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul dan ofal eu hathrawon Rhian Lloyd Evans ac Eleri Llwyd Jones gyda chymorth yr organydd Eldrydd Jones. Y wraig wadd a siaradodd â'r plant oedd Bethan Morris, Llanrhaeadr Y M. Aeth y casgliad tuag at Nyrsys Macmillan. Talwyd y diolchiadau gan Robin Hughes. Mewn oedfa arall yng nghapel Pendref cyhoeddwyd bod £217 wedi cael ei godi yn Sefydliad y Dref er budd Cymdeithas y Beibl. Yng nghyfarfod Nos Lun Diolchgarwch y pregethwr oedd y Parchedig Patrick Slattery, Dolgellau, ac fe'i croesawyd ef a'i briod gan y gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards. Yr organydd oedd Eldrydd Jones.

**SWPER Y CYNHAEAF**
Yn Festri'r Tabernacl y cynhaliwyd Swper y Cynhaeaf dan nawdd Cyfeillion Drws Agored .Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Miss Rhoswen Charles a dymunwyd gwellhad i Mrs Mary Owen oedd yn methu bod yn bresennol. Rhoddwyd croeso i'r diddanwyr, Parti Llond Llaw o Bontrobert ,sef pedair o ferched yn canu caneuon amrywiol a hefyd cafwyd datganiad ar y delyn gan Haf Watkins (un o'r parti). Mwynhaodd pawb swper blasus.

**SUL Y BEIBL**
Cynhaliwyd yr oedfa undebol flynyddol yn Eglwys Myllin Sant dan lywyddiaeth y Rheithor y Parchedig Hermione Morris gyda chymorth aelodau o'r eglwysi lleol a'r Parchedig Gwyndaf Richards. Yr organydd oedd Pauline Page Jones ac aeth y casgliad tuag at waith Cymdeithas y Beibl.

**DATHLU**
Ar y Sul olaf yn Hydref daeth pobl o bell ac agos i gyfarfod arbennig yng nghapel Pendref dan lywyddiaeth Richard Lloyd i ddathlu 300 mlwyddiant ailgodi'r adeilad yn 1717. Cawsom gyflwyniad hanesyddol a darluniadol gan Pauline Page Jones yn olrhain datblygiad yr achos dros dair canrif. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedig Gwyndaf Richards, Llinos Jones, Eos ac Erin o'r Ysgol Sul, a Pharti Fronheulog.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Pont Robert

**CYFARFOD DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein Gŵyl Ddiolchgarwch Undebol ar ddydd Sul Hydref 8fed, wedi ei threfnu eleni gan yr Annibynwyr. Gofalwyd am y gwasanaethau gan y Parchedig Edwin Hughes, Llanbrynmair. Menna Lloyd oedd yr organydd a Helen Davies a drefnodd y blodau ac a wnaeth y diolchiadau. Cafwyd paned ar y terfyn a chyfle am sgwrs. Ar y nos Fawrth, cynhaliodd plant yr ysgol eu gwasanaeth o dan arweiniad eu prifathrawes Catherine Parry a'r athrawon eraill yn ei chynorthwyo. Thema'r cyfarfod oedd 'Hedd Wyn'. Alwena Francis ddaeth i sgwrsio hefo'r plant. Helen Davies wnaeth y croeso a'r diolchiadau.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Ardal Bathafarn

**SWPER CYNHAEAF CYMDEITHAS CAPEL BATHAFARN**
Diolch o galon i Lowri am ei brwdfrydedd wrth iddi ofalu am y trefniadau. Cafwyd gwledd wrth y bwrdd; diolch hefyd i'r chwiorydd am gyfrannu a helpu. Cafwyd darlleniad a gweddi gan Olwen a Martin. Hyfryd oedd cael criw da at ei gilydd i fwynhau a chymdeithasu yng ngwir ystyr y tymor arbennig. Da oedd clywed hanes Rhian a Rhodri ar eu taith i Seland Newydd.

**PENWYTHNOS AGORED RHUTHUN**
Bu Dafydd, Elizabeth, Lucy, Meta a Dilys ar ddyletswydd yng nghapel Bathafarn a hyfryd oedd cael croesawu teuluoedd o Ruthun a'r cylch yn ogystal â dieithriaid oedd â diddordeb yn yr adeilad.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda gofid y clywsom am farwolaeth un o'n haelodau mwyaf ffyddlon sef Emrys Davies, un a gefnogodd bob oedfa a gweithgaredd yng nghapel Bathafarn. Mab Ty'n Llechwedd, Gwyddelwern, oedd Emrys slawer dydd, teulu a fu'n gefn aruthrol i'r Achos Wesleaidd yng Ngwyddelwern am flynyddoedd maith. Bu Emrys yn athro a phennaeth ysgol cydwybodol ac yn bregethwr cynorthwyol deallus am gyfnod maith. Bu hefyd yn athro Ysgol Sul ffyddlon yn y Tabernacl, Rhuthun, a byddai'n paratoi'n helaeth ar gyfer ei ddosbarth. Cymeriad annwyl, un galluog mewn sawl maes, sgwrsiwr difyr a meddylgar tuag at bawb. Bydd yn golled fawr iawn. Ein cydymdeimlad diffuant at Hywel, Bethan ac Owain a'r teulu i gyd. Meddwl amdanoch i gyd gan gynnwys ei ffrindiau yn Llys Awelon. Melys fydd yr atgof amdano.

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Gwenno, Tŷ Ucha'r Llyn, a Iolo o Ddolwyddelan, ar achlysur hapus eu priodas yng Nghapel Wesle Gwyddelwern, hefyd i Hefin a Lois Hughes ar eu priodas hwythau ddiwedd Hydref ym Mhentrefoelas.

Dymuniadau gorau i Mary Jones, Glyndyfrdwy, ar enedigaeth ei gor-wyres gyntaf yng Nghaerdydd, ac i Audrey a Llew Jones ar enedigaeth gor-wyres sef Nel Owen. Pob bendith i'r teuluoedd hyn i gyd.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod mis Hydref, bu'r Parchedig Jennie Hurd yn pregethu yma a chawsom hefyd oedfa Gymun dan ofal y Parchedig Martin Evans-Jones. Bu Tom Morris yntau yn arwain gwasanaeth ac ar yr ail Sul yn y mis cynhaliwyd yr ŵyl Ddiolchgarwch. Y llywyddion oedd Dafydd a Rhodri a chyfeilyddion y mis oedd Rhian a Meta. Cymerodd Elizabeth ran yng Ngwasanaeth Undebol Un Byd Rhuthun, yn yr Eglwys Bresbyteraidd Saesneg. Cafwyd oedfa fendithiol iawn.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Wynne, Sant Meugan. Cofion ati hi a phawb sy'n wael gartref, mewn cartref gofal neu yn yr ysbyty. Meddyliwn amdanoch i gyd.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

GWASANAETH NADOLIG
Croeso cynnes i bawb
i Wasanaeth Nadolig Ardal Bathafarn
a gynhelir am 2pm yng nghapel
Bathafarn, Rhuthun, ar 17 Rhagfyr, yng
nghwmni'r Parchedig Jennie Hurd. Te i
ddilyn yng Nghanolfan Awelon.

## Ebeneser, Caernarfon

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar fore Sul 16 Hydref. Croesawyd pawb yn gynnes iawn i'r oedfa gan Megan Roberts a lediwyd emynau gan Megan, Olwen Jones, Olwen Hefina Hughes a Mati Jones. Darllenwyd gan Norah O'Brien, Gwenllian Roberts a John Howard Hughes. Fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan Carol Davis. Cafwyd unawdau gan June Aubrey a Morwenna Roberts ac eitemau offerynnol gan Catrin ar y corn a Henry ar y clarinét. Gwerthfawrogwn yn fawr gwmnïaeth y



bobl ifanc yn ein mysg a'u parodrwydd i gymryd rhan. Daeth cyfle wedyn i'r aelodau ymuno i ganu dau emyn i gyfeiliant medrus ein gweinidog y Parchedig Richard Gillion ar y gitâr. Profiad pleserus a dymunol dros ben oedd canu *Jubilate, jubilate* gyda gorfoledd. Gwnaed y diolchiadau gan y gweinidog. Yr organydd oedd Eira Owain. Ar derfyn yr oedfa cafwyd cyfle i fwynhau paned o de a sgwrs.




**RHODD**
Yn dilyn marwolaeth y ddiweddar Mrs Martha Williams, fe dderbyniodd yr eglwys swm sylweddol er cof amdani. Roedd Mrs Williams yn chwaer i'r diweddar Barchedig O. Prys Davies ac yn fodryb i Mrs Lil Watkins.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*

## Ebeneser, Treuddyn

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau calonnog i Ron ac Eunice Griffiths ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Eunice sydd ddim wedi bod yn dda ei hiechyd ers peth amser a gobeithiwn y caiff wellhad buan yn dilyn cyfnod anodd iawn.

**CYDYMDEIMLO**
Yn ddiweddar yn y capel cynhaliwyd angladd Mrs Alwena Evans. Cydymdeimlwn yn fawr iawn 'r teulu yn eu colled.

**OEDFAON EBENESER**
Yn ystod Hydref a Thachwedd cynhaliwyd gwasanaethau dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans, y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen, Mr John Mainwaring, Mrs Maryl Rees, y Parchedig Marc Morgan a Mrs Siân Williams. Diolchwn iddynt am baratoi ar ein cyfer.

**DYMUNO'N DDA**
Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau a ffrindiau'r capel, gan gofio'n arbennig am y rhai sy'n wael yn eu cartref neu gartrefi gofal.

*Gohebydd – Glenys Davies*

CAPEL EBENESER, TREUDDYN
Cynhelir ein Gwasanaeth Carolau blynyddol am 2.30 y prynhawn ar ddydd Sul, Rhagfyr 24ain dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Croeso cynnes iawn i bawb ymuno ni.
*Gwasanaeth dwyieithog.*
**Croeso cynnes i bawb.**

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CROESO**
Roeddem yn falch o fod yn bresennol yn y cyfarfod arbennig yn Shiloh Tregarth ar 1 Medi, i groesawu ein gweinidog newydd sef y Parchedig Richard Gillion. Ers hynny rydym wedi cael cwmni'r Parchedig Gillion yma yn Nhrefor pan fu'n cyd-wasanaethu mewn oedfaon gyda'r Parchedigion Jennie Hurd a Gwynfor Williams. Gobeithio ei fod ef a'i briod Lesley wedi setlo yn eu cartref newydd ym Mangor.

**DYMUNIADAU GORAU**
Cafodd Mr Arthur Jones driniaeth yn yr ysbyty. Rydym yn falch ei fod yn gwella'n dda ac yn ôl yn yr oedfaon.

**DIOLCHGARWCH**
Eleni am y tro cyntaf cynhaliwyd y Cyfarfod Diolchgarwch ar nos Sul yn hytrach na'r Dydd Llun traddodiadol. Da o beth oedd hynny gan fod Ophelia wedi dangos ei dannedd erbyn nos Lun! Cafwyd gwasanaeth bendithiol a chartrefol dan ofal Mrs Eirlys Williams, Dulas. Rydym yn ddiolchgar iddi am ddod atom ar fyr rybudd.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Horeb, Croesoswallt

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein hoedfa ddiolchgarwch fore Sul yr 8fed o Hydref yn Horeb o dan arweiniad y Parchedig Ddr Goronwy Prys Owen o'r Bala. Addurnwyd y capel a chafwyd rhoddion o wahanol fwydydd i'w gosod ar y bwrdd gan aelodau Horeb a Seion. Yr organydd oedd Mrs Catherine Wilson. Dosbarthwyd y rhan helaeth o'r bwydydd i'r banc bwyd at ddiwedd yr oedfa.

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
Gan fod festri Horeb yn cael ei hatgyweirio, cynhaliwyd noson agoriadol tymor y Gymdeithas yn Seion ar nos Lun y 9fed o Hydref. Cawsom swper arddercho g wedi ei baratoi gan Howard Martin a'i weini gan ferched Horeb ac wedyn diddanwyd ni gan Gareth Jenkins, consuriwr o'r Amwythig. Y llywydd oedd Melfyn Evans. Roedd yn noson hwyliog dros ben.

**CYDYMDEIMLO**
Mae dwy o'n haelodau wedi colli perthnasau yn ddiweddar: Mrs Beryl Powell wedi colli chwaer yng nghyfraith a Miss Eleri Davies wedi colli ewythr sef y diweddar Mr Maelor Jones, Llanarmon. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## Seion, Pwllheli

**DYMUNO'N DDA**
Anfonwn ein cofion cynnes at yr aelodau sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar sef Mrs Buddug Jones, Dr Osian Ellis, Mrs Dilys Jones a Mrs Betty Evans. Brysiwch wella.

**YMDDEOL**
Dymunwn yn dda i'n cyn-weinidog, y Parchedig Gwyn Thomas ar ei ymddeoliad. Mae yntau wedi bod yn cwyno, ond rydym yn gobeithio ei weld yn dod i dreulio'r Sul gyda ni yn reit fuan.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch ar y cyntaf o Hydref. Cymerwyd rhan gan Miss Valerie Williams a chafwyd eitem gerddorol gan Dr Osian Ellis. Trefnwyd y cyfarfod gan Miss Valerie Williams.

*Gohebydd – Elizabeth Owen*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Soar, Cwm Nant y Fyllon

**BEDYDD**
Yng nghapel Soar ar 27 Awst, bedyddiwyd Yana Catrin Jones, merch Alun a Natasha ac wyres Gwyn ac Olwen o Minafon, Llanfyllin. Y Parchedig Gwyndaf Richards oedd yn



gwasanaethu, gan groesawu pawb mewn tair iaith, a Gwyneth Ellis oedd yr organydd. Y fam fedydd oedd ffrind Natasha, Maria Mironova, a oedd wedi hedfan o Yekaterinburg, Rwsia gyda'i gŵr a'u mab, a'r tad bedydd oedd Richard Balstad o Auckland, Seland Newydd, ffrind i'r teulu. Diolch hefyd i John Langran o'r Parc, Llanfyllin am ei gyfraniad i'r gwasanaeth drwy gyfieithu o'r Rwsieg i'r gynulleidfa. Yn dilyn y bedydd aethpwyd ymlaen am de yn Llety'r Saethwyr ym Mlaencwm.

*Gohebydd – Llinos Jones*

## Shiloh, Tregarth

**GWELLHAD BUAN**
Pob dymuniad da am wellhad buan i David Ellis Jones, sydd gartref o'r ysbyty yn awr.

**GWASANAETH Y DIOLCHGARWCH**
Cafwyd cyfle eto eleni i ddathlu'r Diolchgarwch mewn Oedfa Deulu ar nos Sul, 15 Hydref. Roedd y gwasanaeth yng ngofal rhai o ieuenctid y capel gyda rhai o'u rhieni yn rhoi cymorth. Rhoddodd Gwenno ddatganiad arbennig iawn ar y delyn a rhai o'r lleill a gymerodd ran oedd Nel Mai, Myfi Celyn, Ifan Rhys, Gwenlli ac Aziliz. Daeth pawb â chyfraniad i flwch y Banc Bwyd. Hyfryd iawn oedd cyfraniad Wyn Williams a roddodd anerchiad perthnasol iawn; diolch iddo am fod mor barod ei wasanaeth. Diolch i Christine Morris Jones am drefnu'r oedfa ac am gyfeilio. Diolch hefyd i bawb am eich haelioni yn cyfrannu yn ystod y flwyddyn i'r Banc Bwyd. Mae tua chwe llond bocs wedi eu cludo i Fangor yn ystod y misoedd diwethaf.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Susan Jeffries, merch y diweddar Raymond a Katie Jeffries a chyn-aelod yn Shiloh, sydd yn awr yn byw yng Nghaerdydd, am ennill gwobr arbennig iawn sef Asesydd y Flwyddyn, Dysgu Seiliedig ar Waith. Ar ôl dros dri deg mlynedd o brofiad ym maes cynhyrchu rhaglenni teledu, cychwynnodd Susan ei chwmni hyfforddi ei hun yn arbenigo mewn prentisiaethau ar gyfer swyddi yn y maes. Mae'n rheolwr gyfarwyddwr Sgil Cymru, sy'n rhan o'r diwydiant yn Stiwdios Pinewood yn Rhymni, ac yn brif Asesydd ar gyfer tair prentisiaeth yn y cyfryngau.

**DRWS AGORED**
Mae croeso cynnes i bawb bob bore dydd Gwener, i fwynhau cwmni a phaned yn Shiloh. Er nad ydym yn codi unrhyw fath o dâl, mae pobl y tu hwnt o hael ac yn rhoi cyfraniadau ariannol bob wythnos. Yn ein Cyngor Eglwys ym mis Medi, penderfynwyd cyfrannu'r arian ddaeth i law, cyfanswm o £210 rhwng Ionawr a Medi, i dair elusen, sef £70 yr un i Amnest Rhyngwladol, Pobl i Bobl a Bugeiliaid Stryd Bangor.

Croeso cynnes iawn i bawb
i wasanaeth
Cymun Noswyl Nadolig
yn Shiloh am 5pm, 24 Rhagfyr 2017




## Ebeneser, Dolgellau

**CYDYMDEIMLO**
Ar Fedi'r 16eg bu farw John Lloyd Edwards mewn cartref nyrsio yn Llandudno. Magwyd John yn Frongoch, Dolgellau a bu'n aelod selog o gapel Ebeneser ers ei blentyndod hyd i'w iechyd dorri i lawr. Cydymdeimlwn â'i chwaer Gwenda a'r teulu oll yn eu colled. Un arall fu'n selog i wasanaethau Ebeneser tra bu'n byw yn Henfelin oedd Dilys Hughes, a fu farw mewn cartref nyrsio yng Nghricieth ar Hydref y 15fed. Bu ei gwasanaeth angladdol yn Eglwys y Santes Fair, Dolgellau, ar y 24ain o Hydref. Cydymdeimlwn â Sharon ei merch yn ei phrofedigaeth.

**CYFARFOD DIOLCH**
Addurnwyd y capel yn hyfryd ar gyfer Hydref yr 8fed, pryd y cawsom Wasanaeth Diolchgarwch o dan ofal y Diacon Stephen Roe. Mwynhawyd paned ar ddiwedd yr oedfa.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**CYDYMDEIMLO**
Yr ydym fel Eglwys yn cydymdeimlo yn ddwys iawn â Mrs Jane Jones a Mrs Ann Jones a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli eu chwaer annwyl, Margaret, yng Nghanada. Mae Mrs Megan Evans hefyd wedi colli perthynas sef Mr Gwyn Jones o Benmachno. Meddwl amdanoch i gyd.

**GWELLHAD BUAN**
Cofion at bawb sydd wedi bod yn cwyno. Yn ystod yr haf bu Mr Gordon Evans yn

*parhad ar y dudalen nesaf*

Ysbyty Gwynedd am driniaeth. Gwellhad buan iddo ef ac i bawb.

**BEDYDD**



Yn ystod gwasanaeth nos Sul Hydref 29 bedyddiwyd Huw Daniel a Seren Mair, mab a merch Teleri ac ŵyr ac wyres i Islwyn a Megan Evans. Roedd y gwasanaeth o dan arweiniad y Parchedig Roger Roberts. Bendith Duw ar y teulu i gyd.

**LLONGYFARCH**

Bu i'n gweinidog y Parchedig Peter Jennings ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddo. Pob dymuniad da hefyd i Thomas Garstang ar ei ddyrchafiad yn ddirprwy reolwr siop y Co-op yn Neganwy. Pob lwc i ti, Thomas.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Gweithiwr newydd Cynllun Efe



Dymuniadau gorau a phob bendith i Catrin Hampton, gweithiwr newydd Cynllun Efe gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd. Pob dymuniad da hefyd i'w rhagflaenydd, Andrew Settatree, yn ei swydd newydd fel Cynorthwyydd Gweinidogaethol gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ardal Llŷn ac Eifionydd.

**ER COF ANNWYL**

Ar 9 Hydref eleni, bu farw Mrs Olive James (Edmund-Jones gynt) a hithau yn 98 oed. Yn enedigol o Fangor ac yn ferch i Robert a Sarah Edmund-Jones, bu Olive yn gweithio fel fferyllydd mewn sawl practis meddygol yn y Gogledd ac yng Nghastell Rhuthun pan oedd yn ysbyty preifat. Symudodd i Lundain ym 1949 a phriododd yng nghapel Chiltern Street â James Morgan James o Geredigion. Buont yn byw yn ardal Blackheath. Cydymdeimlwn â'i merch Helen a'i mab Robert, a'r teulu oll.

# BRYNMOR

gan Olwen Whomsley

Ymfalchïai fy nhad, H. Brynmor Jones, yn y ffaith ei fod yn fab i weinidog Wesleaidd sef y Parchedig Edward Jones. Fy nhad oedd yr ieuengaf o'r teulu o dair merch a chwech o feibion. Y tri pheth pwysicaf ym mywyd fy nhad oedd ei grefydd, y teulu a'r Midland Bank. Gymaint felly, pan oeddwn yn tyfu i fyny, fy mod yn meddwl fod rhywun nad oedd yn Wesla a heb gyfrif yn y Midland Bank ddim yn llawn gyrraedd y nod! Bu fy nhaid farw tra yn arolygwr y gylchdaith yn Llanrwst, a fy nhad yn 16 oed.



Roedd fy nain wedi mynd i'r seiat yn Horeb o'i flaen ond doedd dim sôn am Edward Jones. Dychwelodd fy nain i'r tŷ a'i ddarganfod yn farw wrth ddrws y ffrynt.

Yn fuan iawn, symudodd fy nain a'r teulu i fyw efo'i merch hynaf, Edith, a oedd wedi priodi Edward Jones, cyfreithiwr ym Mlaenau Ffestiniog. Mae gennyf edmygedd mawr o f'ewythr a'm modryb a gymerodd drugaredd ar y teulu. Roedd gan Edith a'i gŵr un mab, Harry Evans Jones: Edith oedd nain y Parchedig Martin Evans Jones.

Blwyddyn ar ôl marwolaeth fy nhaid, dechreuodd y Rhyfel Mawr. Ymunodd Oliver, yr hynaf o'r chwe mab, â'r fyddin. Aeth Morley i Goleg Headingley i'w hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Bu'n rhaid iddo yntau ymuno â'r fyddin – yr R.A.M.C. – a bu'n gwasanaethu yn Gallipoli cyn dychwelyd i'r weinidogaeth. Un arall o'r meibion oedd Millward, newyddiadurwr, a fu'n amlwg ymhlith Cymry Llundain. Byddai fy mrodyr yn dweud ei fod yn llunio rhai o areithiau Lloyd George; yn sicr roedd yn gyfaill agos i'r teulu.

Ac yna fy nhad, Brynmor. Yn 16 mlwydd oed, cafodd swydd yn Llanelli yn y North and South Wales Bank, efallai trwy gymorth Edward Jones ei frawd yng nghyfraith. Bu'n ddiolchgar i'w deulu yn y Blaenau ar hyd ei oes. Bu fy nhad yn ffodus i gael ei addysg yn Ysgol Ramadeg Llanrwst, tra roedd ei dad yn Eglwysbach ac yna yn Llanrwst. Mae'n rhaid iddo fwynhau ei blentyndod, oherwydd hoffai ymweld â'r llefydd roedd wedi byw ynddynt. Ei hoff le oedd Llanrwst ac yno y claddwyd ei rieni.

O Lanelli symudwyd fy nhad i Langefni, i weithio i'r Midland Bank a oedd wedi cymryd drosodd y North and South Wales Bank, ac yno y cyfarfu â fy mam. Roedd wedi ymaelodi yn y Capel Wesla yno a phan ymunodd â'r fyddin ym 1915 cyflwynwyd llyfryn bach iddo gan y capel. Tybed a oes eraill â'r llyfr poced ***Eto Ddiwrnod Arall*** yn eu meddiant, gweddi ar gyfer pob dydd gan J.H. Jowett, a gyfieithwyd i'r Gymraeg yn 1914. Mae ôl y frwydr ar y llyfryn a byddai fy nhad yn ei ddarllen yn ystod y weddi mewn gwasanaeth gan ei fod mor drwm ei glyw.

Yn Awst 1917, ac yntau'n 20 oed, anfonwyd Brynmor i Ffrainc. Tua'r un adeg derbyniodd y teulu neges fod y mab hynaf, William Oliver, wedi ei ladd yn Fflandrys. Mae ei enw ar Borth Menin ac ar y gofeb ar y prom yn Llandudno, lle cafodd ei eni yn ystod gweinidogaeth ei dad yno. Rhyw fis yn ddiweddarach, hysbyswyd fy nain fod fy nhad ar goll ac yn debygol o fod wedi ei ladd ym mrwydr ofnadwy Passchendaele. Fodd bynnag, yn Ebrill 1918 daeth hysbysiad gan y Swyddfa Ryfel ei fod yn fyw ac yn garcharor rhyfel yn yr Almaen. Mae gennyf lythyrau hyfryd a chariadus a ysgrifennodd at fy nain a'm modryb Edith; gan fod Edith bymtheg mlynedd yn hŷn na'i brawd, roedd fel ail fam iddo.

Aelod o'r 'Machine Gun Corps' oedd fy nhad, a adwaenid fel 'The Suicide Squad' oherwydd y perygl parhaol y byddent ynddo – y gelyn yn saethu o'u blaenau a'r artileri yn saethu o'r tu ôl. Anafwyd fy nhad fwy nag unwaith ac roedd yn amlwg fod y profiadau erchyll wedi effeithio arno yn fawr. Yn ei llythyrau, mae ei fam yn cynnig anfon 'Sanatogen' iddo at ei nerfau. Pan gawsant wybod ei fod yn fyw, hysbyswyd y teulu hefyd fod Brynmor wedi derbyn yr M.C. ar 20 Medi 1917, sef y diwrnod y cymerwyd ef yn garcharor.

Ni chlywais fy nhad erioed yn sôn am y profiadau hyn. Fi oedd yr ieuengaf o bell yn y teulu a bu fy nhad farw yn drigain oed. Dysgais yr hanes gan fy mrodyr a thrwy ddarllen y dyddiadur yr oedd wedi'i ysgrifennu pan oedd yn garcharor. Yr hyn wnaeth yr argraff fwyaf arnaf oedd ei ddisgrifiad o sut y teimlai pan ddaeth yr amser iddo ddychwelyd i'r ymladd ar ôl bron i bythefnos yn y Blaenau. Meddai, yn Saesneg: "How soon the day of my departure came – from a literal heaven to a literal hell." Cafodd ei ryddhau ar ddydd Nadolig 1918. Cafodd groeso brwdfrydig yn y Blaenau. Yna yn Llangefni mewn dathliad o'r heddwch yn ystod Gorffennaf 1919, cyflwynwyd oriawr iddo a chrynodeb o'r 'citation' wedi ei ysgythru ar ei chefn. Trysorodd hon a'r Groes Filwrol ar hyd ei oes.

Yn ddiweddarach bu fy nhad yn rheolwr banc yn Amlwch; oherwydd iddo golli ei glyw ac yn wir ei hyder, gwrthodai gynigion o ddyrchafiad. Gofalai am ei gwsmeriaid yn ofalus, pob un yn bwysig iddo. Ysgrifennai at y Cymry yn Gymraeg, rhywbeth anarferol bryd hynny. Roedd Bethel, Amlwch yn bwysig iawn i ni fel teulu. Er i mi briodi Huw, gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae fy magwraeth Wesleaidd wedi bod yn hynod bwysig i minnau ac mae derbyn y *Gwyliedydd* yn rhoi pleser mawr.

# Duw gyda ni: ond sut?

gan y Parchedig J. Owain Jones

Un o'r profiadau pwysicaf a ddaeth i'm rhan fel myfyriwr prifysgol yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth ddeugain mlynedd yn ôl oedd cael fy lluchio allan o grŵp Astudiaeth Feiblaidd yn y neuadd breswyl! Wel, nid yn gymaint cael fy lluchio allan – ond ni chefais wahoddiad yn ôl, ar ôl y noson honno pan edrychasom ar stori Joseff. Darllenodd rhywun hanes Joseff yn hogyn ifanc yn derbyn y siaced fraith a ddynodai ei statws fel ffefryn ei dad a'i fam, ac yn adrodd ei freuddwydion i'w frodyr: ***"yr oeddem yn rhwymo ysgubau yn y maes, a dyma f'ysgub i yn codi ar ei sefyll, a daeth eich ysgubau chwi yn gylch o'i chwmpas ac ymgrymu i'm hysgub i."*** Ac ymhellach ***"Cefais freuddwyd arall: dyna lle'r oedd yr haul a'r lleuad ac un seren ar ddeg yn ymgrymu i mi."*** Prin fod ei frodyr yn croesawu'r ffaith mai Joseff oedd y ffefryn. ***"Ac aethant i'w gasáu ef yn fwy eto o achos ei freuddwydion a'i eiriau."***

A dyna lle roeddem, tua deuddeg ohonom ni, wedi'n gwasgu i mewn i ystafell hollol nodweddiadol mewn neuadd breswyl yn y saithdegau, posteri o "Snoopy" a "Motorhead" ar y muriau, yn trafod stori Joseff gyda dwyster anghyffredin. Ac meddai rhywun: "Wel, onid pechod, a diffyg ffydd sydd wrth wraidd agwedd gas ei frodyr tuag at Joseff? Methu dirnad mai dawn o ddwyfol roddiad sydd ynddo, cenfigennu wrth fawredd yr un ddewiswyd gan Dduw..." Mewn gwrthgyferbyniad, paragon ffydd oedd Joseff! Fe wyddai ei fod yn sbesial, yn unigryw, a bod llaw Duw arno! Fe wyddai y byddai ffydd yn ei amddiffyn, beth bynnag a ddeuai!
Llwyddais i wrando ar ryw funud a hanner o hyn cyn ffrwydro. "Rwtsh llwyr! Onid ydi hi'n amlwg mai ffŵl anaeddfed (credaf i mi ddefnyddio'r gair Saesneg "twit") oedd Joseff yn y cyfnod hwn o'i fywyd, llencyn bach anaeddfed a dibrofiad, fyddai'n gorfod dysgu gwersi caled a phoenus cyn dod i ddiwedd ei stori..."

Yr eironi, wrth gwrs, oedd nad oeddwn i ar y pryd ond rhyw ddwy flynedd yn hŷn na dwy flynedd ar bymtheg Joseff yn y stori hon – ac yn llawn gor-hyder ac anaeddfedrwydd! Fawr o syndod, mae'n siŵr, na chefais wahoddiad yn ôl i'r Astudiaeth Feiblaidd honno ar ôl y fath bregeth! Serch hynny, mi rydw i'n dal i gredu fy mod i'n iawn. Hogyn ifanc annymunol oedd Joseff ar ddechrau'i stori – ond yn fwy na hynny, ac yn llawer gwaeth, credai ei fod yn bwysicach a gwerthfawrocach na'i frodyr. Diau y credai y câi ei amddiffyn rhag treialon ac argyfyngau bywyd, ac nad oedd – ac na ddylai fod – o dan yr un pwysau a disgwyliadau â phobl eraill, a diau y credai fod a wnelo hynny rywbeth â'i berthynas â Duw.
Eironi fawr stori Joseff oedd ei fod yn credu bod rhywbeth arbennig dros ben yn perthyn iddo – a'i fod, yn y diwedd, yn gywir. Ond nid oedd yn gywir ynglŷn â ***natur*** y peth arbennig hwn. Roedd wedi camddeall natur arbenigrwydd ei fywyd yn llwyr, ac roedd yn rhaid iddo ddod i weld a deall ei gamgymeriad trwy daith boenus a pheryglus lle nad oedd iddo unrhyw amddiffyniad rhag realiti bywyd.

Credai, yn hogyn ifanc, fod ei ddawn o ddehongli, a deall ystyr, breuddwydion yn ei godi uwchlaw ei frodyr, ac y dylai warantu y byddai cwrs ei fywyd yn freiniol a hawdd. Ond fel arall yn llwyr yr aeth profiad Joseff. Doedd dim noddfa rhag argyfwng a pherygl yn ei stori. O'r sylweddoliad trawmatig fod ei frodyr yn ei gasáu ddigon i gynllwynio i'w lofruddio, i'r amarch o'i werthu i farsiandwyr caethweision, i'r anghyfiawnder o gael ei gyhuddo gan wraig Potiffar o rywbeth yr oedd yn hollol ddieuog ohono, a'i garcharu, proses enbyd o ddadrithio yw stori Joseff. O fod yn llanc hunanbwysig sy'n argyhoeddedig o'i statws breiniol ac unigryw, mae Joseff yn mynd yn garcharor heb hawliau na statws.

Ac yna, mewn twist creulon, mae gobaith fel pe'n fflamio yn y gell, lle mae dau arall wedi eu carcharu gyda fo. "Os bydd iti gofio amdanaf pan fydd yn dda arnat," meddai Joseff wrth y pentrulliad, "fe wnei gymwynas â mi trwy grybwyll amdanaf wrth Pharo, a'm cael allan o'r tŷ hwn. Oherwydd cefais fy nghipio o wlad yr Hebreaid; ac nid wyf wedi gwneud dim yma chwaith i haeddu fy ngosod mewn cell." Ond fe anghofiodd hwnnw yn llwyr am Joseff ar ôl cael ei ryddhau a diffoddwyd y gwreichionyn olaf o obaith yng nghaddug llaith, drewllyd y carchar. Mae Joseff yn cwblhau ei daith hir gan gyrraedd y pwynt hwn o ddadrithio llwyr. Pwynt pan fyddai pob person rhesymol yn dod i'r casgliad nad oes dim safle freiniol yn perthyn iddo, dim amddiffyniad arbennig rhag risgiau byw yn y byd, dim gwarant na all pethau fynd yn yfflon, gan chwalu pob breuddwyd.

Weithiau, fe ddaw amgylchiadau i'n rhan, anawsterau, heriau, sy'n gwneud i ni ddweud "Pam?" Weithiau fe'n cawn ein hunain yn wynebu sefyllfaoedd, argyfyngau, sy'n newid ein byd ac yn trawsffurfio telerau ein byw: Joseff yn y carchar; yr Israeliaid ar lan y Môr Coch; cymuned yr alltudion ar lan afonydd Babilon a llawer un arall, yn myfyrio ar newid byd llwyr a radical.

Ond dyma, welwch chi, wir gysur y ffydd Gristnogol. ***Pe*** cyrhaeddem, ***os*** cyrhaeddwn, ***pan gyrhaeddwn,*** bwynt eithaf ein dadrithiad, diflaniad llwyr ein hargyhoeddiad bod rhywbeth sy'n ein gwahanu oddi wrth bobl eraill, a'n gwneud yn "sbesial" – ***dyna lle mae Duw***. Pan blicir i ffwrdd ohonom yr ymdeimlad mai fi yw canolbwynt y bydysawd - ***dyna lle mae Duw***. Oherwydd dyma lle safai Iesu. Ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas... fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.

Yna, pan nad oedd dim byd i ddiogelu'r merched trallodus a'r disgyblion profedigaethus rhag realiti oerllyd y byd ar fore'r Trydydd Dydd, daeth Duw a hynny mewn dull hollol annisgwyl. Pan fo pob ffynhonnell gobaith wedi rhedeg yn sych, pan na wyddom ble i droi – fe ymddengys gobaith, yn ddisymwth, yn hollol annisgwyl, mewn ffurf nad oedd modd ei ddarogan na'i ddarlunio ymlaen llaw. Onid dyna brofiad pobl Dduw? I'r Cristion, mae un patrwm enfawr yn sefyll y tu cefn i hyn i gyd, ac yn pwyntio at bresenoldeb Duw – a'r *modd* y mae Duw yn bresennol – yn ein byd cymhleth, godidog, dychrynllyd ac amwys ni.

Ond mae'n rhaid dweud mwy na hynny. Ac yn wir, mae stori Iesu o Nasareth yn ein tywys yn bellach, i diriogaeth ddyrys y cwestiwn: "Beth os na ddaw gwaredigaeth?" Bu farw Iesu. Pan adeiledir ffydd ar sail Iesu, dyna'r mewnwelediad dwys a ddaw. "O Dad, os wyt ti'n fodlon, cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Ond gwneler dy ewyllys di, nid fy ewyllys i." A mewnwelediad ffydd yw mai dyma bresenoldeb Duw-gyda-ni. Duw, yng Nghrist, yn cyd-ddioddef a ni, yn rhannu ein distadledd di-bŵer, a'n harcholladwyedd.

Mae ffydd fel hyn yn gwneud disgyblion ohonom ni, oherwydd bod ffydd fel hyn yn ein galw i ddilyn llwybr distadl, ufudd y Crist - oherwydd mai ***llwybr Duw at Dduw*** yw hwn. Dyma'r llwybr a dyma'r ddisgyblaeth a'n gwna ni, ys dywed Paul, "yn fwy na choncwerwyr". Nid crefydd y statws breiniol, i'n heithrio o anawsterau bywyd, mo'r ffydd Gristnogol. Yn hytrach, dyma'r ffydd sy'n llenwi'r pethau hynny ag ystyr, a'r ystyr yw Iesu Grist. Trawsffurfir popeth, pob bygythiad, hyd yn oed ein meidroldeb, a marwolaeth ei hun.

Dyna yn wir yw natur ffydd. Dilyn. Ymddiried. Meddai Iesu: "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i." Nid ffordd allan, ac nid ffordd o gwmpas, anawsterau bywyd, yw ffydd, ond ffordd trwodd. Ffordd Crist, llwybr Duw at Dduw.

*[Yn seiliedig ar Oedfa'r Bore BBC Cymru ar 27 Awst 2017]*

# "Mae'r ystyr yn y disgwyl"



**gan y Canon Idris Thomas**

Cyn traethu, hoffwn ddiolch i amryw o gapeli'r Wesleaid (a chapeli eraill hefyd) am groeso cynnes ar y Suliau.

Ymysg holl dymhorau'r Eglwys, tymor yr Adfent yw'r ffefryn gennyf a hynny ers dyddiau plentyndod. Rhyw deitl a chyfnod heb fawr ffws a ffwdan, o fewn yr Eglwys yn unig, oedd yr Adfent bryd hynny a byddai'n cael ei gadw'n ddigon gweddus a di-lol ond yn ystyrlon. Ers rhai blynyddoedd caf y teimlad ei fod wedi ei herwgipio gan bawb a phopeth am bob math o resymau - a hynny i stad o hysteria ar adegau. Caf deimladau go anghysurus weithiau, fel yr adeg pan gerddais yn freuddwydiol i siop Nadoligaidd (ar ddiwedd mis Hydref) mewn dinas fawr a chael fy nghyfarch, "Welcome to the Advent cave, babe". Yn yr ogof nid oedd arlliw o Nadolig y preseb hyd yn oed, heb sôn am ganhwyllau Adfent! Y gwir yw y down wyneb yn wyneb â'r Nadolig (heb sôn am yr Adfent) wythnosau maith cyn ei ddod. Cofiaf gerdded i ganolfan siopa yma yn y Gogledd ar y pnawn Sadwrn cyn Sul y Cofio a gweld stondin yn gwerthu'r pabi coch. Wrth ymyl y pabi roedd model enfawr o garw, eira artiffisial, Nat King Cole yn canu "Deck the Halls" a phreseb bychan ymhlith pethau eraill. Sefais o flaen y cyfan a theimlo dim byd. Wrth fy ymyl, meddai gwraig ganol oed: "A bit early, isn't it?" A dyna daro'r hoelen ar ei phen. Yn lle gwerthfawrogi yn llawn yr olygfa o'm blaen, y ffaith oedd na wnaeth fy nghyffroi o gwbl a hynny, yn syml iawn, am ei fod yno yn rhy gynnar.

Rhydd yr Eglwys Gristnogol dymor yr Adfent inni i baratoi at groesawu y "Gair yn y gwair yn gorwedd" ac mae'n ddigon o gyfnod oherwydd, ym mharatoad yr Eglwys, nid yw'r aros yn hir iawn o gwbl. Disgwyliaf, fel chithau oll, am y Baban ac fel chithau mae'r hanes ar flaenau fy mysedd. Bob blwyddyn fe synnaf o'r newydd at ryfeddod y digwyddiad. Y boddhad i mi yw bod pob enwad bellach a phob cylch Cristnogol wedi gweld fod arwyddocâd arbennig y tymor mor gyfoethog, a minnau'n cofio fod "yr ystyr yn y disgwyl". Er mai tymor o bedwar Sul cyn y Nadolig yw'r Adfent, a phob Sul gyda'i thema a'i bwyslais ei hun, mae i'r Sul sy'n sefyll wrth ddrws yr Adfent (y pumed cyn y Nadolig) neges arwyddocaol hefyd. Fel "Sul y cyffroi"(*Stir up Sunday* yn Saesneg) yr adwaenir y dydd weithiau. Gan fod y Nadolig gerllaw, mae'r amser wedi dod i baratoi'r pwdin Dolig a chael cymorth y teulu i'w "gyffroi" (ei gymysgu)! Tueddai rhai offeiriaid i ddod â phowlen yn llawn cynhwysion i'r pulpud ar y Sul hwn a chlamp o lwy cegin fawr ac arddangos sut fuasai rhywun yn cyffroi y pwdin!

Drwy'r Adfent darllenwn am broffwydi'r Hen Destament fel Jeremeia (Pennod 23) yn cyhoeddi ac yn cyffroi ewyllys pobol trwy ddatgan geiriau ei Arglwydd iddynt sef – "Wele y dyddiau yn dyfod".

Ein tasg yr Adfent hwn eleni eto yw bod yn barod i weld cyflawniad ac addewid y cyffroi hwn o du Duw a dyna addewid sydd mewn stôr i ni oherwydd, yr Adfent hwn fel pob tymor Adfent, "mae'r ystyr yn y disgwyl".

# Teisen Nadolig Ysgrythurol



**CYNHWYSION**

170g Nahum 3:12
100g Numeri 17:8
200g Barnwyr 5:25 (menyn)
250g Jeremeia 6:20 (corsen bêr sef siwgr)
3 llond llwy fwrdd o 1 Samuel 14:25
4 x Jeremeia 17:11
200g 1 Samuel 30:12 (yr ail fwyd a enwir)
500g 1 Brenhinoedd 4:22
Llond llwy de o 2 Cronicl 9:9
Pinsied o Lefiticus 2:13
2 lond llwy de o Amos 4:5
5 llond llwy fwrdd o Barnwyr 4:19

**DULL**

1. Irwch dun teisen a'i leinio â phapur pobi.
2. Torrwch **Nahum 3** yn fân.
3. Torrwch **Numeri 17** yn fân (os nad ydych wedi prynu rhai mâl)
4. Mewn dysgl gymysgu fawr, hufennwch â'i gilydd **Barnwyr 5, Jeremeia 6** ac **1 Samuel 14.** Ychwanegwch y pedwar **Jeremeia 17**, un ar y tro, gan guro'r cymysgedd.
5. Ychwanegwch **Nahum 3, Numeri 17** ac **1 Samuel 30** a churwch y cymysgedd eto.
6. Rhidyllwch **1 Brenhinoedd 4** gyda **Lefiticus 2** ac **Amos 4**, a'u troi i mewn i'r cymysgedd. Ychwanegwch **Barnwyr 4** (gallwch ychwanegu ychydig mwy os yw'r cymysgedd rywfaint yn sych).
7. Ar ôl cymysgu'n drylwyr, rhowch yn y tun a choginio ar 160° am 1-1½ awr neu nes bydd yn barod.

# TUDALEN Y PLANT





Cafodd Iesu ei eni yn faban bach ym Methlehem. Y bugeiliaid oedd y bobol gyntaf i ddod i'w weld, ond ar ôl hynny daeth gwŷr doeth o'r dwyrain i chwilio amdano. Roedden nhw eisiau cael ei weld hefyd. Pobl ddoeth iawn oedd y rhain, oedd yn gwybod llawer am y sêr. Roedden nhw wedi gweld seren arbennig yn yr awyr. "Mae'r seren yn arwydd fod brenin wedi ei eni," medden nhw.

Dyma'r doethion mynd ar daith bell i Jerwsalem, i balas y brenin Herod, a holi lle roedd y brenin newydd. Doedd Herod ddim yn gwybod ond roedd yn benderfynol nad oedd neb ond fo ei hun am gael bod yn frenin.

Holodd y bobol fwyaf gwybodus yn Jerwsalem.

"Lle mae Crist i fod i gael ei eni?" meddai.

"Bethlehem," oedd eu hateb.

"Gwrandewch," meddai Herod wrth y gwŷr doeth. "Ewch i Fethlehem i chwilio am y brenin newydd yma, wedyn dywedwch wrtha i ac mi af innau i'w addoli o." Ond lladd y baban oedd ei fwriad, go iawn.




Dilynodd y gwŷr doeth y seren, oedd yn mynd o'u blaen i Fethlehem. Arhosodd y seren uwchben yr union fan lle roedd y baban Iesu ac yno cawsant ei weld gyda Mair ei fam. Dyma nhw'n plygu'n isel a'i addoli, a rhoi eu hanrhegion iddo sef aur, thus a myrr.

Cafodd y gwŷr doeth eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â mynd yn ôl at Herod, y brenin creulon, ac aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.